Y Meddwl, Y Galon a'r Dwylo

Trosolwg

Dyfnhau ein cysylltiad emosiynol â byd natur fel bod ymddygiad cynaliadwy'n tyfu yn naturiol o'r ymdeimlad hwnnw o ofal.



Gweithgareddau

Y meddwl – meddwl am fyd natur. Mae'r staff yn cerdded o gwmpas yn araf ac yn trafod beth y gallant ei weld – y tywydd, pethau tymhorol. Dewch o hyd i rywbeth nad ydych wedi sylwi arno o'r blaen.
Y galon – teimlo cysylltiad â byd natur. Dewiswch eitem naturiol a dychmygwch pa stori y byddai'r eitem honno'n ei hadrodd pe bai'n gallu siarad?
Y dwylo – gofalu am fyd natur. Rhowch yr eitem mewn man lle byddai'n ddefnyddiol i fywyd gwyllt.

Offer

- Eitemau naturiol
- Llechen i dynnu lluniau wrth gerdded
- Cerrig stori – gyda darluniau o fyd natur arnynt
- Archwiliad tir wedi'i addasu i'r hinsawdd – LtL

Cwestiynau allweddol

Beth y gwnaethoch sylwi arno gyda help eich pen?
Beth y gwnaethoch ei deimlo gyda help eich calon?
Beth y gwnaethoch ei greu neu ofalu amdano gyda help eich dwylo?

Deilliannau dysgu

Adlewyrchu dull plentyn o ddysgu am yr amgylchedd drwy feddwl, teimlo a gwneud.
Modelu'r camau gweithredu pob dydd y gall plant eu cymryd i ddatblygu parch at fyd natur a chyfrifoldeb amdano.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Cerrig stori gyda darluniau o fyd natur arnynt.
- Gallaf weld yr haul. Mae'n boeth. Gallaf ddod o hyd i gysgod/creu cysgod rhag yr haul.
- Gallaf weld y glaw. Mae'n wlyb. Gallaf osod llestr i gasglu dŵr er mwyn i anifeiliaid ei yfed.